**ATODIAD 4**

**CYFALAF**

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau blaenorol wedi cynnwys elfen sylweddol o fenthyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau nesaf ar droed.

3. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| **RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2019/20 £'000** | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** |
| **Cynlluniau Newydd** | | | |
| Cynllun Rheoli Asedau i'w Ddyrannu | 11,728 | 7,535 | 6,610 |
| Atgyweirio Priffyrdd | 2,650 | 1,325 | 0 |
| Gofal Plant | 1,238 | 1,113 | 0 |
| Strategaeth Dai | 2,700 | 2,700 | 2,700 |
| | **18,316** | **12,673** | **9,310** |
| **Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoes ar y Rhaglen** | **16,675** | **6,129** | **0** |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **34,991** | **18,802** | **9,310** |

4. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

| **ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2019/20 £'000** | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** |
| **Cynlluniau Newydd** | | | |
| Darpariaeth Cyfalaf yn y Setliad | 7,995 | 7,535 | 6,610 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 2,563 | 2,438 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 7,758 | 2,700 | 2,700 |
| | **18,316** | **12,673** | **9,310** |
| **Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoes ar y Rhaglen** | | | |
| Benthyca Arall | 1,393 | 777 | 0 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 8,753 | 525 | 0 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 98 | 750 | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 265 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 1,435 | 0 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 4,731 | 4,077 | 0 |
| | **16,675** | **6,129** | **0** |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **34,991** | **18,802** | **9,310** |

5. Bwriedir sefydlu strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen, yn unol â'r adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet yn fuan yn 2019. Bydd y strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29.

6. Cymeradwywyd y drefn er mwyn sefydlu'r strategaeth nesaf gan y Cabinet ar 16 Ionawr 2018 ac yn ystod y misoedd yn dilyn gofynnwyd i holl aelodau'r Cyngor i flaenoriaethu'r cynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau. Bydd adroddiad ar y cynlluniau manwl yn dod gerbron am gymeradwyaeth yn ddigon buan am y flwyddyn ariannol 2019/20.

7. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2019/20 i 2021/22, tra bydd y manylder ar y cynlluniau unigol yn cael ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd newydd.

8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 4 uchod.